**Jayne Bryant AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**
**Minister for Mental Health & Early Years**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-JB-5117-24

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

1 Mai 2024

Annwyl Sarah,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor am fwriad Gweinidogion Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod y Rheoliadau Honiadau Iechyd (Dirymu) 2024 (y Rheoliadau). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) (Dirymu a Diwygio) ("Deddf REUL").

Bydd y Rheoliadau'n dirymu deddfwriaeth y nodwyd ei bod yn ddiangen ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na chafodd ei chynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf REUL. Ni fydd dirymu'r offerynnau hyn yn cael unrhyw effaith ar bolisi yng Nghymru a bydd yn lleihau cymhlethdod diangen yn y llyfr statud.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod deddfwriaeth ddiangen yn cael ei dirymu'n gyfartal ar draws y gwledydd yr oedd yn berthnasol iddynt.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ym mis Mehefin 2024.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu yn yr un modd at Russell George MS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a’r Blynyddoedd Cynnar
Minister for Mental Health & Early Years